



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Dyffryn Nantlle

**Ffordd Y Brenin
Penygroes
Gwynedd
LL54 6RL**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Nantlle

Enw'r darparwr	Ysgol Dyffryn Nantlle
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	Dim
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	401
Disgyblion o oedran ysgol statudol	362
Nifer yn y chweched dosbarth	39
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Uwchradd yw 18.5%)	14.3%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Uwchradd yw 23.0%)	29.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	82.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2022
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	31/01/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	14/11/2022

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Crynodeb

Ar ôl cyfnod heriol yn hanes yr ysgol, mae arweinyddiaeth gref y pennaeth, gyda chefnogaeth y llywodraethwyr a'i thîm rheoli, wedi sicrhau nifer o welliannau amlwg. Mae yna naws deuluol Gymreig yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod gan gredu bod 'Nunlle fel Nantlle'. Bellach, mae yna ethos gwaith tîm cryf ymysg staff, a dros y deunaw mis diwethaf, mae strwythurau rheoli llinell clir wedi cael eu rhoi ar waith. Ers mis Medi, mae lefelau atebolrwydd wedi cynyddu, ac mae arweinwyr a staff nawr yn cael eu dal yn atebol am ansawdd y ddarpariaeth maent yn ei chynnig i'r disgyblion.

Mae'r gofal, cymorth ac arweiniad y mae'r ysgol yn eu darparu i'r disgyblion yn gryfder. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion lefelau uchel o les. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi bod ganddynt rywun i droi atynt os ydynt angen cymorth. Mae yna gyfleoedd lu i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi'r addysg. Gwna ddisgyblion y chweched dosbarth gyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol trwy gefnogi disgyblion iau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae gan yr uwch dîm rheoli ddealltwriaeth dda o'r prif gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella ac maent wedi blaenoriaethu'n ddoeth. Mae cynlluniau pwrpasol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn ac mae effaith nifer o'r camau gweithredu eisoes wedi dwyn ffrwyth. Er enghraifft, mae yna brosesau clir i wella ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion nawr yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas y safle. Fodd bynnag, mae yna anghysondeb yn nealltwriaeth arweinwyr o'r union feysydd sydd angen eu gwella o fewn dysgu'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae yna gyfleoedd gwerthfawr o fewn y pynciau iaith ac ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i ddarllen, i ysgrifennu yn estynedig ac i drafod ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ofalgar ac yn llwyddo i greu amgylchedd cynhyrchiol ar gyfer y dysgu. Mewn gwersi a thros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, mae yna ddiffygion yn yr addysgu sy'n golygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ac y gallent. Nid oes digon o gyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, eu medrau digidol, a'u gallu i weithio'n annibynnol.

Argymhellion

- A1 Gwella ansawdd yr addysgu a sicrhau bod yr arferion cryf yn cael eu lledaenu
- A2 Atgyfnerthu gallu arweinwyr i adnabod yn benodol y cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn y dysgu a'r ddarpariaeth
- A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd, medrau digidol a medrau dysgu annibynnol disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mewn gwersi a thros amser, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn addas yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol. Gwna tua hanner gynnydd da, ac mewn ychydig o achosion, lle mae'r addysgu yn effeithiol iawn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan a chryf. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffygion yn yr addysgu neu agweddau negyddol y disgyblion hyn at eu dysgu.

Mae mwyafrif y disgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn briodol ac mae lleiafrif yn cymhwyso eu gwybodaeth yn briodol mewn sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, yn eu gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol o amrywiol arddulliau ysgrifennu er mwyn cynhyrchu darnau disgrifiadol llwyddiannus am olygfa ffair.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud a gofalus ar gyfarwyddiadau'r athro a chyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn huawdl ar lafar yn y ddwy iaith. Mae disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle yn ymfalchio yn eu Cymreictod a, phan gânt y cyfle, mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n gynhyrchiol i waith grŵp gan siarad yn ffraeth a rhoi atebion estynedig. Er enghraifft, mae disgyblion yn esbonio'u syniadau'n glir wrth ystyried dylanwadau cadarnhaol a negyddol y cyfryngau cymdeithasol ar wahanol bobl. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ystyried natur eu cynulleidfa yn ddigon gofalus wrth siarad. Mewn sefyllfaoedd ffurfiol, maent yn cynnwys bratiaith a geiriau Saesneg mewn brawddegau Cymraeg. Mewn lleiafrif o achosion, o ganlyniad i natur cwestiynu athrawon, mae disgyblion yn cynnig ond atebion byr ar lafar.

Mae llawer o ddisgyblion yn craff-ddarllen testunau'n llwyddiannus er mwyn caffael gwybodaeth. Maent yn hyderus wrth ddarllen ar goedd, er enghraifft wrth ddarllen testunau amrywiol am y 'Welsh Not' mewn parau. Gallant adnabod a deall effaith prif nodweddion arddull yn llwyddiannus mewn darnau estynedig llenyddol ac anllenyddol yn y ddwy iaith. Mae disgyblion mwy galluog yn llwyddo i lunio dadansoddiadau aeddfed a chraff o gynnwys ac arddull darnau ysgrifenedig. Er enghraifft, yn eu gwersi Cymraeg, maent yn gwneud cymariaethau craff o'r cerddi 'Rhaid Peidio Dawnsio' gan Emyr Lewis a 'Hedfan' gan Grug Muse gan ddadansoddi'r defnydd o eirfa, ansoddeiriau, cyferbyniad a chywair. Yn eu gwersi hanes, maent yn cwestiynu dibynadwyedd ffynonellau wrth ystyried pam roedd goresgyniad Tsiecoslofacia yn arwyddocaol i bolisi tramor Prydain cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau darllen gwan. Mae ganddynt eirfa gyfyng ac yn ei chael hi'n anodd ynganu geiriau'n gywir. Mae'r disgyblion hyn yn cynnig atebion sy'n rhy arwynebol wrth gwblhau tasgau darllen a deall neu wrth ddadansoddi testunau ysgrifenedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn rhugl a lled gywir yn y ddwy iaith gan gyfleu eu syniadau'n glir. Yn eu gwersi cerdd, mae disgyblion yn llwyddiannus wrth ysgrifennu darnau estynedig sy'n cyfleu'r prif wahaniaethau cerddorol rhwng dwy fersiwn o'r gân 'It's a hard knock life' o'r ffilm 'Annie', gan

esbonio'n glir pa un maent yn ei ffafrio. Mae llawer yn trefnu eu gwaith yn briodol mewn paragraffau. Maent yn arddangos dealltwriaeth briodol o gystrawen a gramadeg ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o reolau treiglo. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud gwallau iaith sylfaenol cyson wrth ysgrifennu'n estynedig. Mae llawer yn ysgrifennu'n briodol at ystod eang o bwrpasau yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad i lywodraethwyr ar bwysigrwydd adnoddau digidol i gynorthwyo disgyblion yn eu dysgu, llunio dyddiaduron teithio, ac ysgrifennu storïau mewn arddull Gothig. Mae disgyblion mwy galluog yn arddangos medrau creadigol cryf, gan ddefnyddio ystod eang o eirfa apelgar a diddorol wrth ysgrifennu stori goroesi ddychmygol.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif a mesur priodol ac maent yn eu defnyddio'n gywir er mwyn gwneud cyfrifiadau. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif cryf. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle a chanrannau i gyfrifo canran yr egni sy'n trosglwyddo i garbohydradau wrth i goeden amsugno egni. Fodd bynnag, nid yw medrau rhif lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon cadarn. Nid yw eu dealltwriaeth o gysyniadau rhif yn ddigon da ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gymhwyso eu dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd newydd. Mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi data yn addas. Maent yn llunio graffiau'n gywir ac yn eu dadansoddi yn llwyddiannus er mwyn dod i gasgliadau synhwylol. Mae lleiafrif y disgyblion yn cael trafferth â gwaith data. Nid ydynt bob tro'n llunio graddfeydd addas wrth blotio graffiau ac nid ydynt yn dehongli'r wybodaeth yn gywir.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau digidol. Er enghraifft, maent yn creu fideos diddorol a deniadol, ac yn defnyddio meddalwedd arbenigol yn llwyddiannus er mwyn dylunio gwrthrychau tri dimensiwn yn eu gwersi technoleg.

Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn gwneud datblygiad buddiol yn eu medrau meddwl. Er enghraifft, yn eu gwersi Saesneg, maent yn ystyried effaith iaith emosiynol, rhagfarn a defnydd o gywair iaith gwahanol ar y darlennydd. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu creadigrwydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu gwaith creadigol cywrain wrth efelychu gwaith Kyffin Williams yn eu gwersi celf. Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn creu cyweithiau apelgar ar y testun 'Cymru' fel rhan o brosiect Cwricwlwm i Gymru. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau corfforol. Er enghraifft, yn eu gwersi addysg gorfforol, maent yn gwerthuso a gwella eu techneg yn fedrus wrth wneud amrywiaeth o weithgareddau cylched.

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau pynciol. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio'u dealltwriaeth i egluro cysyniadau cymhleth am waneddiadau cyfres yn eu gwersi bioleg. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn falch o fod yn ddisgyblion yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at fywyd a chymuned yr ysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn trafod yn huawdl, ac maent yn datblygu syniadau aeddfed wrth astudio eu pynciau Safon Uwch. Er enghraifft, yn eu gwersi hanes, maent yn cynhyrchu traethodau estynedig o safon uchel ar hawliau sifil yn yr Unol Daleithiau a'r modd mae hyn wedi newid dros amser.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle yn ymfalchïo mewn bod yn rhan o deulu'r ysgol ac yn elwa o'i chymuned ofalgar, glòs a Chymreig. Maent yn arddel y gred nad oes 'Nunlle Fel Nantlle'. Maent yn ymfalchïo yng nghysylltiadau agos yr ysgol â'r gymuned leol a'r ysgol gynradd gyfagos. Mae'r cysylltiadau hyn wedi arwain at brosiect creu murluniau trawiadol o amgylch yr ysgol, ac mae'r disgyblion yn cymryd balchder mawr yn y murluniau hyn.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol ac maent yn dangos medrau cymdeithasol cryf wrth ryngweithio'n aeddfed â staff, ymwelwyr a'u cyfoedion. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn rhydd rhag bwlio ac yn gwybod at bw i droi os oes angen cymorth arnynt. Mae llawer yn dweud bod athrawon a staff ategol yn gofalu am eu lles ac yn parchu eu barn. Gwerthfawrogant yr ystod eang o gymorth lles sydd ar gael fel y 'Ganolfan Sgiliau', 'Yr Ystafell Fugeiliol' a chefnogaeth y swyddog lles a'r swyddog lles a chynhwysiant.

Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd pwrpasol i fynegi barn trwy fforymau dosbarth a'r Cyngor Ysgol. Trwy weithgareddau llais y disgybl, maent wedi rhoi adborth ar, a chyfrannu at, newidiadau i unedau o waith, a rhai agweddau o waith yr ysgol. O ganlyniad i fewnbwn gan ddisgyblion, mae gwelliannau sylweddol i'r ardal allanol.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall buddion gwneud dewisiadau gwybodus am fwyta a chadw'n iach. Maent yn manteisio ar yr amrediad eang o glybiau chwaraeon sydd ar gael yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol cryf wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr fel y clwb drama, clwb ysgrifennu creadigol, clwb celf a'r corau.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn llysgenhadon clodwiw i'r ysgol. Maent yn gymdeithasol ac yn siarad yn aeddfed, parchus ac hyderus gyda ymwelwyr, staff a disgyblion o bob oedran. Mae eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn werthfawr ac mae llawer yn ymgymryd â rolau arweiniol. Maent yn cadeirio a llywio'r Cyngor Ysgol a'r is-bwyllgorau, ac arwain clybiau amrywiol fel y clwb hanes i ddisgyblion iau'r ysgol. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr wrth weithredu fel swyddogion dyletswydd gofalgar. Maent hefyd yn gweithredu fel mentoriaid cefnogol fel 'Bydis Sgiliau' i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o fewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyrraedd yn brydlon i wersi, yn setlo'n gyflym ac yn bwrw ymlaen â thasgau cychwynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu a diddordeb yn eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn gwranddo'n barchus ar yr athro ac ar gyfraniadau eu cyfoedion, gyda mwyafrif yn ymgysylltu'n llawn wrth gwblhau tasgau ac wrth ymateb i adborth eu hathrawon. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddigon da ar eu gwaith gan sgwrsio â chyfoedion yn lle dyfalbarhau ar dasgau a'u cwblhau hyd eithaf eu gallu.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn gefnogol o'r disgyblion ac maent yn meithrin perthynas waith gynhyrchiol, ofalgar ac adeiladol

gyda'u dosbarthiadau. Mae gan lawer o athrawon reolaeth ddsbarth effeithiol ac maent yn mynd i'r afael ag unrhyw agweddau negyddol yn amserol.

Mae llawer o athrawon yn rhoi esboniadau clir ac yn defnyddio adnoddau priodol i gefnogi'r dysgu. Drwyddi draw, mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n briodol i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn addas. Maent yn holi'r disgyblion i brofi gwybodaeth ac yn cefnogi'r dysgu trwy roi adborth buddiol unigol i ddisgyblion wrth iddynt weithio.

Mae llawer o athrawon yn fodolau iaith da ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o derminoleg bynciol yn effeithiol. Serch hyn, mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgwyliadau athrawon o ddefnydd cywir disgyblion o'r Gymraeg yn ddigon uchel.

Mae tua hanner yr athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dysgu. Maent yn cynllunio tasgau a gweithgareddau sydd â lefel her uchel a phriodol sy'n datblygu dealltwriaeth a medrau disgyblion yn effeithiol. Maent yn modelu gwaith yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gallu efelychu'r gwaith a gwneud cynnydd cadarn. Mae'r athrawon hyn yn monitro cynnydd disgyblion yn agos, gan fynd i'r afael â chamsyniadau disgyblion a defnyddio eu canfyddiadau i lywio'r addysgu.

Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu o safon uchel iawn. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau hynod uchel o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni. Mae'r athrawon hyn yn angerddol am eu maes dysgu. Maent yn cynllunio'n hynod fedrus fel bod tasgau yn adeiladu dealltwriaeth disgyblion yn gynyddol. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl. Maent yn gofyn cwestiynau miniog a threiddgar er mwyn cymell disgyblion i feddwl yn ddwys a dyfnhau eu dealltwriaeth. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael gwir fwynhad o ddysgu ac yn llwyddo i gwblhau tasgau heriol yn annibynnol.

Mewn tua hanner y gwersi, mae yna ddiffygion yng nghynllunio athrawon sy'n lleihau effeithiolrwydd yr addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys tasgau elfennol nad ydynt yn adeiladu dealltwriaeth yn gynyddol, diffyg modelu effeithiol neu athrawon yn gor-reoli'r dysgu. Yn aml yn y gwersi hyn, nid yw cwestiynu athrawon yn ddigon treiddgar.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig sylwadau ysgrifenedig defnyddiol ar waith disgyblion. Maent yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella ansawdd y gwaith ac yn tynnu sylw at gamgymeriadau sillafu a gramadeg. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn darparu adborth manwl a phwrpasol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel ac yn mynnu bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i'r sylwadau a gwella eu gwaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i sylwadau a gwella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol brosesau a systemau pwrpasol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Maent yn dadansoddi'r wybodaeth yn fanwl er mwyn adnabod grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni, ac mae ymyraethau priodol ar waith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw lithriad. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn addas er mwyn sicrhau bod adrannau yn cydweithio, gan rannu'r strategaethau sy'n gweithio orau gydag unigolion. Fodd bynnag, mae anghysondeb yng nghywirdeb asesiadau athrawon yn golygu nad yw'r prosesau olrhain wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol. Mae'r ysgol

yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni trwy nosweithiau rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig unwaith y flwyddyn, ac adroddiadau cynnydd pob hanner tymor. Mae'r adroddiadau'n cynnwys manylion defnyddiol am gynnydd disgyblion, a sut y gallent wella.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol yng nghyfnod allweddol 3 sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt adeiladu ar ddysgu blaenorol. Cynigir ystod eang o bynciau yng nghyfnod allweddol 4 sy'n llwyddo i ddiwallu anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu. O ganlyniad i gydweithio effeithiol â darparwyr eraill, mae'r ysgol yn cynnig cyrsiau galwedigaethol o fewn a thu hwnt i'r ysgol, fel adeiladwaith, walio a ffensio. Mae hyn yn llwyddo i ddarparu llwybrau dysgu clir a buddiol i ddisgyblion penodol ac mae'r ddarpariaeth yn cysylltu'n bwrpasol â chyfleoedd cyflogaeth o fewn y gymuned leol. Mae arweinwyr yn cynllunio'n fedrus ac yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod cwricwlwm cyfoethog i ddisgyblion yn y chweched dosbarth trwy Bartneriaeth Arfon a Môn. O ganlyniad, mae llwybrau dysgu eang ar gael sy'n diwallu anghenion y disgyblion ar draws yr ystod gallu, a hynny mewn model cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog ac mae rhai o'r prosiectau hyn yn cyfrannu'n dda at y raglen bontio o'r cynradd i'r uwchradd. Mae'r prosiectau megis 'Dyffryn Disglair', 'WoW - World of Work', 'Dyfodol Disglair MSparc' a 'STEM Gogledd Cymru' yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion, ac o ganlyniad, mae hyn yn llwyddo i gynnal a chodi eu dyheadau.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion o fewn y pynciau iaith ac ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau darllen yn ogystal â chyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig. Mewn pynciau perthnasol, mae yna ychydig o gyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth rhifedd wedi ei chynllunio'n ddigon cydlynus, o fewn mathemateg nac ar draws y cwricwlwm, i sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn ei ddyddiau cynnar. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu medrau digidol sylfaenol mewn lleiafrif o bynciau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu uwchfedrau digidol.

Mae arweinwyr yn dadansoddi amrywiaeth o ddata cyrhaeddiad yn effeithiol er mwyn adnabod disgyblion sydd â medrau rhifedd a llythrennedd gwan ac yn darparu ymyraethau priodol ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir a llinell amser synhwyrol o ran cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2023. Mae'r ysgol wedi ymgynghori'n llwyddiannus â rhanddeiliaid megis y staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol, ac o ganlyniad, mae'r broses ar gyfer llunio gweledigaeth yn gynhwysfawr. Mae amser penodol wedi ei neilltuo ar yr amserlen i adrannau gyd-gynllunio ar sail y weledigaeth hon ac er mwyn manteisio ar gysylltiadau naturiol sy'n codi o fewn eu cynlluniau gwaith. Mae pob maes dysgu a phrofiad wedi bod yn arbrofi'n briodol â deunyddiau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae disgyblion wedi mwynhau a chynhyrchu gwaith o safon uchel wrth astudio'r themâu 'Yr Anthem Genedlaethol' a 'Cymru' yn eu gwersi Cymraeg. Mae staff wedi cael hyfforddiant buddiol ar gyfer deall

egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith cynllunio wedi ffocysu'n ddigonol ar wella ansawdd yr addysgu i gyd-fynd â'r cynllunio cwricwlaidd.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) briodol. Mae'r ddarpariaeth yn hyblyg ac, yng nghyfnod allweddol 3, mae arweinwyr yn addasu'r rhaglen fel y bo'r angen yn ôl dyheadau disgyblion, digwyddiadau sy'n codi ac adborth o holiaduron. Mae'r ysgol yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau bod sesiynau priodol ar gyfer rhai themâu yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr. Er enghraifft, mae swyddog cyswllt yr heddlu yn mynychu'r ysgol i roi gwersi ar sut i gadw'n ddiogel ar lein.

Mae gan yr ysgol nifer o glybiau sy'n rhoi profiadau buddiol i'r disgyblion ar draws yr ystod oedran. Mae'r Clwb Gwaith Cartref yn darparu cymorth priodol i'r disgyblion, gyda'r clwb dadlau yn rhoi cyfle buddiol i ddisgyblion mwy abl a thalentog. Mae cyfleoedd eang i ddisgyblion gynrychioli'r ysgol mewn timau chwaraeon ac mae'r côr cymunedol yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth allgyrsiol. Mae dwy daith sgïo i Awstria yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ehangu eu gorwelion, gyda theithiau mwy lleol i'r Wylfa, Biwmares, gwaith maes yn ninas Lerpwl a chyfle i ymweld â theatrau lleol ac yn Llundain i weld perfformiadau byw.

Mae'r cynllunio strategol ar gyfer hyrwyddo a dathlu Cymreictod a threftadaeth Gymreig yn nodwedd gref. Trefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drochi mewn diwylliant Gymreig ac ymfalchïo yn llwyddiannau eu gwlad. Er enghraifft, trefnwyd twrnaint Cwpan y Byd gyda'r ysgolion cynradd, gyda chystadlaethau creu sylwebaeth gemau pêl-droed a gweithdai cyfansoddi caneuon am dimau pêl-droed yr ardal. Trefnir gigiau gyda bandiau pop Cymraeg i ddisgyblion hŷn. Mae Eisteddfod flynyddol yr ysgol yn ddigwyddiad pwysig i'r disgyblion ac i'r staff ac yn fodd i holl gymuned yr ysgol dathlu eu Cymreictod. Yn ddiweddar, ail-lansiwyd Côr Cymunedol Ysgol Dyffryn Nantlle ar gyfer cymryd rhan yn y cyngerdd Nadolig ac yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd amrywiaeth. Er enghraifft, maent yn astudio hanes a phrofiadau cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig, a phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, a Thrawsryweddol + (LHDT+) mewn unedau gwaith yn y Gymraeg, Saesneg, y dyniaethau ac yn y gwersi ABCh. Yn ogystal, mae clwb LHDT+ yr ysgol yn darparu cyfle allgyrsiol a chefnogaeth fuddiol i'r disgyblion drafod profiadau.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Dyffryn Nantlle yn gymuned ofalgar, gynhwysol Gymreig sy'n gosod anghenion personol disgyblion wrth wraidd popeth. O ganlyniad, mae'r berthynas gadarnhaol rhwng y rhan fwyaf o'r disgyblion a'r staff yn nodwedd arbennig.

Mae'r ddarpariaeth les yn gryfder ac mae'r staff yn adnabod y disgyblion sy'n cael mynediad at y gefnogaeth yn dda iawn. Mae staff arbenigol yn gweithio'n agos â disgyblion sy'n mynychu'r 'Ganolfan Sgiliau' ar raglenni ymyrraeth effeithiol sy'n ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion penodol. Mae'r 'Ystafell Fugeiliol' yn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i'w helpu i gael mynediad i'r cwricwlwm am amryw o resymau. Mae'r staff yn eu cefnogi i wella eu hymddygiad er mwyn ailgydio yn eu gwaith a gwneud cynnydd.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf drwy'r holl waith lles ar leihau unrhyw rwystrau rhag dysgu. Maent yn darparu cefnogaeth effeithiol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion ac yn mynd uwchlaw a thu hwnt i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth i deuluoedd ar gyfer costau bwyd, gwisg ysgol a deunyddiau hylendid.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cymorth pwrpasol sydd wedi ei deilwra gan dîm o staff sy'n sicrhau gofal a chynnydd. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm yn adolygu eu darpariaeth yn rheolaidd ac yn addasu yn ôl anghenion unigol y disgyblion. Mae disgyblion ag anghenion mwy dwys yn cael mynediad at ddarpariaeth wedi'i phersonoli er mwyn gwella eu medrau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, 'therapi ceffylau', lle mae bod tu allan yn yr awyr agored yn cynnig manteision therapiwtig ac addysgol, a'r therapi celf, sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion fyfyrion ar eu meddyliau a'u teimladau drwy ddelweddau. O ganlyniad, mae disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan Sgiliau, 'Ystafell Fugeiliol' a'r rhai sy'n cael darpariaeth gan y swyddog llesiant a chynhwysiant yn derbyn cymorth pwrpasol ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.

Mae'r prosesau ar gyfer monitro ac olrhain disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae ganddynt gynlluniau un dudalen [CDU] sy'n cynnwys cyfraniadau gan y disgyblion a'r teuluoedd ac maent yn cael eu rhannu â staff yn briodol. Mae'r CADY wedi dechrau gweithio gydag athrawon ac adrannau i gefnogi eu cynllunio ac i gynnig strategaethau i helpu unrhyw ddisgyblion sydd ag ADY yn y brif lif. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n cynllunio gwersi'n ddigon gofalus i sicrhau bod gweithgareddau ar draws y cwricwlwm wedi eu teilwra'n ddigon addas ar gyfer disgyblion sydd ag ADY neu sy'n fwy abl.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Gwneir hyn trwy wasanaethau, gweithgareddau munud i feddwl a thrwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol briodol. Mae arweinwyr wedi gwneud defnydd da o holiaduron a barn disgyblion i deilwra'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wedi creu cyfres o wersi ar ddiar ac iechyd meddwl ar ôl darganfod gofidiau. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol ac mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion o bwys. Mae gweithredoedd clir yn cael eu cytuno mewn cyfarfodydd ac mae'r deilliannau'n cael eu rhannu'n rheolaidd â gweddill yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio â phartneriaid allanol yn briodol i sicrhau cefnogaeth bersonol sy'n canolbwyntio ar anghenion emosiynol a llesol y disgybl. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda gwasanaeth cynhwysiant yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd i wneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i fynychu'r ysgol a bod yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn er mwyn monitro a hybu presenoldeb da. Mae'r ysgol yn mabwysiadu nifer o strategaethau pwrpasol ei hun ac yn cydweithio'n effeithiol â'r awdurdod addysg lleol er mwyn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cadarn. Mae staff yn ymateb i bryderon diogelu yn brydlon ac yn bwrpasol. Mae'r ysgol yn gwneud y cyfeiriadau angenrheidiol at asiantaethau statudol allanol ac yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion pan fydd angen.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol sy'n seiliedig ar greu ysgol gymunedol, gynhwysol sy'n dathlu ardal a doniau unigryw Dyffryn Nantlle. Mae ganddi hi, a'i thîm arwain, ddyhead i weld pob disgybl yn ffynnu, ni waeth beth fo'u cefndir a'u hanghenion. Mae hi'n cyfathrebu ei gweledigaeth yn huawdl ac yn argyhoeddedig i'r holl randdeiliaid a'r gymuned leol. Mae hi'n bennaeth sy'n weledol o amgylch yr ysgol, yn gwrando'n gyson ar yr holl randdeiliaid ac yn fodel rôl dylanwadol. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi codi morâl staff a disgyblion, adnabod a hyrwyddo eu doniau ac ymgysylltu'n bwrpasol â'r gymuned. Mae hyn wedi cyfrannu at ymdeimlad cryf o berthyn a chyd-ddyheu ymysg rhanddeiliaid.

Mae staff a disgyblion yn arddel arwyddair newydd yr ysgol, 'Nunlle fel Nantlle – llwyddo gyda'n gilydd' ac yn datblygu balchder cynyddol o fod yn rhan o gyfundrefn ar ei newydd wedd o dan arweiniad y pennaeth. Mae nodau ac amcanion yr ysgol yn eglur ac yn ddyheadol. Maent yn seiliedig ar sefydlu'r ysgol fel man diogel a llesol i'r holl ddisgyblion a staff, sicrhau llinellau cyfathrebu clir, codi safonau a gwella ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth.

Cefnogir y pennaeth yn gadarn gan weddill yr uwch dim rheoli. Mae lleiafrif ohonynt yn newydd i'r rôl ond yn datblygu'n dda yn eu gallu i arwain a rheoli. Mae'r uwch dîm rheoli yn blaenoriaethu ac yn cynnig cefnogaeth gref i les staff, er enghraifft trwy gyfarfodydd cyson y pwyllgor llesiant staff. Yn ddiweddar, mae arweinwyr ar bob lefel wedi datblygu dealltwriaeth glir o ddisgwyliadau parthed ymroddiad proffesiynol a pherfformiad. Rhoddir cefnogaeth berthnasol i staff wella eu hymarfer, datblygu yn eu rolau ac i gael profiadau rheolaethol buddiol. Mae trefniadau cynhwysfawr i fynd i'r afael â materion sydd angen gwella yn fuan ac mae'r pennaeth yn delio'n gadarn ag achosion o danberfformio. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ar y cyfan ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn parhau i wella a chryfhau perthynas gynhyrchiol a chadarnhaol gyda rhieni a'r gymuned. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cynyddu'r cyfleoedd i gaffael barn rhanddeiliaid am ansawdd ei gwaith. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion a rhieni fynegi eu barn ar waith yr ysgol, gan gynnwys holiaduron, cyfarfodydd penodol a thrafodaethau ag aelodau dylanwadol o'r gymuned. Mae hyn wedi arwain at wella cyfleusterau ac edrychiad yr ysgol yn sylweddol yn ddiweddar. Yn ogystal, mae gwaith celf ysbrydoledig ar waliau mewnol ac allanol yr ysgol yn destun balchder i'r disgyblion a'r staff ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad cartrefol sy'n bodoli.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion, eu Cymreictod a'u gwerthfawrogiad o dreftadaeth Gymreig yn effeithiol iawn. At ei gilydd, mae'r ysgol yn paratoi'n gynhyrchiol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau rhif a digidol disgyblion yn ddigon cadarn.

Mae gan yr ysgol gynlluniau strategol pwrpasol ar gyfer lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Rhoddwyd hyfforddiant gwerthfawr i helpu staff i ddeall yn well sgil-ffeithiau tlodi ac amddifadedd ar gyrhaeddiad a lles plant, fel effaith trawma a sut i ymateb yn well i faterion emosïynol ac ymddygiadol. Mae arweinwyr wedi creu swyddi ychwanegol newydd i fynd i'r afael â materion lles, megis swyddog llesiant a chynhwysiad a rheolwr ysgolion cymunedol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn ariannu swyddog lles sirol yn uniongyrchol i ymateb i absenoldeb cyson ychydig iawn o ddisgyblion yn dilyn cyfnod y pandemig. Mae'r ysgol yn bwrw ymlaen yn llwyddiannus â'i chynlluniau i greu hwb cymunedol at ddefnydd teuluoedd a disgyblion gyda'r nos fydd yn cynnwys adnoddau fel peiriannau golchi dillad at ddefnydd teuluoedd anghenus.

Ceir cyfarfodydd rheoli llinell rheolaidd a phwrpasol. Mae cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli yn strategol ac yn ffocysu ar faterion pwysig. Bellach, mae cyfarfodydd cyswllt rheolaethol rhwng aelodau o'r uwch dîm rheoli ac arweinwyr canol yn fwy rheolaidd ac yn bwrpasol ac mae atebolrwydd yn nodwedd gref. Rhoddir ffocws priodol ar elfennau pwysig fel dysgu ac addysgu a gwella'r ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd adrannol yn rhoi sylw priodol i'r materion hyn.

Mae'r ysgol yn trefnu cyfres lawn o weithgareddau hunanarfarnu priodol. Mae'r rhain wedi eu nodi'n glir ar y 'Calendr Rheolaethol' sy'n cynnwys manylion gweithgareddau parhaus i sicrhau ansawdd fel craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi, gosod ac adolygu targedau, datblygu materion cwricwlaidd ac ymateb i wybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Drwyddi draw, mae arweinwyr ar bob lefel yn datblygu'n briodol eu gallu i adnabod a thrafod cryfderau a diffygion yn safonau disgyblion ar draws yr ysgol ac i adnabod nodweddion cryf a'r rhai sydd angen gwelliant mewn addysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o ystyriaeth i fedrau pwnc, medrau llythrennedd a rhifedd, a gallu disgyblion i weithio'n annibynnol wrth arfarnu'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr wedi adnabod llawer o flaenoriaethau i'w datblygu ac wedi ffocysu'n synhwyrol ar y prif faterion i'w gwella'n syth. Mae'r cynlluniau datblygu ysgol ac adrannol wedi eu strwythuro'n briodol. Fodd bynnag, mae llawer o'r gweithredoedd o fewn y cynlluniau gwella yn ymwneud â chodi safonau a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion Blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth, ac nid oes digon o sylw i wella ansawdd yr addysgu a medrau'r disgyblion iau.

Dros amser, mae'r ysgol wedi datblygu diwylliant gwerthfawr lle mae staff yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol ac i ymgymryd â gweithgareddau a hyfforddiant er mwyn gwella eu hymarfer a'u gwybodaeth broffesiynol. Yn ddiweddar, mae staff wedi cael hyfforddiant gwerthfawr i'w cynorthwyo i sefydlu perthnasoedd gwaith adeiladol â'r disgyblion ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hymarfer.

Mae uwch arweinydd medrus yn sicrhau bod gweithgareddau dysgu proffesiynol ysgol gyfan, adrannol ac unigol yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol a threfniadau rheoli perfformiad. Mae'r rhaglen eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol yn cynnwys gweithgareddau pwrpasol i gefnogi datblygiad y cwricwlwm, rhai agweddau o addysgu ac arweinyddiaeth trwy'r rhwydwaith 'Môr a Mynydd'. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu'n broffesiynol a thrafod arferion da trwy raglen wythnosol o gyflwyniadau buddiol gan amrywiaeth o staff ar fore Gwener. Mae'r cyflwyniadau hyn yn rhoi ffocws clir ar wella addysgu. Serch hyn, nid yw'r trefniadau

presennol ar gyfer dysgu proffesiynol wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu nac ar allu arweinwyr i adnabod yn well yr agweddau sydd angen eu gwella.

Mae'r llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cyflawni eu rolau yn dda. Maent yn angerddol dros yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol wedi gweithredu'n gadarn iawn dros gyfnodau ansefydlog y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn yn nodwedd gref. Maent yn gefnogol iawn o'r pennaeth ac yn arddel ei gweledigaeth. Maent yn datblygu'n gynyddol effeithiol yn eu rôl fel cyfaill beirniadol ac maent yn herio'r ysgol ar nifer o faterion yn gadarn. Mae'r corff llywodraethol yn cymryd y cyfrifoldeb o sicrhau trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed iach o ddifri ac wedi gwneud gwelliannau buddiol yn sgil hyn. Mae'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r swyddog gweinyddol yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ddoeth ac yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.gov.wales/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.gov.wales/>

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 20/01/2023